


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Aber Bach/Pwllcrochan

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 2.1 milltir (3.4 km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Taih arfordirol, lonydd gwyrdd, caeau a da byw, gwlyb a mwlyd mewn manau, angen croesi nant, 0.3 milltir o gerdded ar isffordd (0.5 km)

CHWILIWCH AM: Bythynnod traddodiadol Sir Benfro • golygfeydd o'r arfordir • blodau gwylt • morloi


MWY O WYBODAETH: Pan fydd y nant yn gorlifo, dargyfeiriad o 2 km (1 km ar isffordd)

ALLWEDD

- Llywyr Cylch
- Llywyr Arfordir Sir Benfro
- Llywyr Cenedlaethol
- Llywbrau Cyhoeddus
- P** Cyfyngedig Parcio ar fin
- Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llywyr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau



Aber Bach/Pwllcrochan

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 2.9 milltir (4.6 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM886355

Ar yr arfordir rhwng Pen-caer a Phenmaen Dewi ceir rhai o'r golygfeydd mwyaf dramatig yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n dirwedd sy'n llawn o bentiroedd a baeau, a grëwyd yn ystod y cyfnod Ordoficaidd rhwng 500 a 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Bryd hynny roedd llosgfynyddoedd yn weithgar yn yr ardal ac yn poeri lafa allan. Fe oerodd y lafa i ffurfio craig galed danllyd. Dros miliynau o flynyddoedd, mae'r creigiau hyn wedi gwrthsefyll yr erydiad i ddod yn glegyr caregog fel Garn Fawr, ychydig i'r gogledd o'r llwybr hwn.

Mae pentiroedd arfordirol, fel Penmorfa a Penbwchdy, hefyd yn nodweddion am fod eu creigiau igneaidd yn sefyll i fyny i'r môr. Mae'r baeau, fel Pwllcrochan, wedi erydu'n gyflymach oherwydd maen nhw wedi eu gwneud o greigiau Ordoficaidd mwy meddal.

Gellir gweld pŵer y môr ar ei orau yn ystod y stormydd niferus sy'n dyrnu'r arfordir. Dywedir mai un storm arbennig o chwynn, sef storm 1859, a greodd y cloddiau o raeau bras yn Aber Bach ac Aber Mawr dros nos. Mewn gwirionedd, ffurfiwyd y cloddiau'n raddol wrth i lefelau'r môr godi ar ddiwedd Oes yr Iâ.

Mae'r clogwyni uwchben Aber Bach a Phwllcrochan yn wledd o liw yn y Gwanwyn a'r Haf pan fydd y blodau gwyllt a'r eithin yn eu blodau.

Oherwydd y cyfoeth o flodau mae yna doreth o bili-palaod i'w gweld hefyd, gan gynnwys ieir bach araf y graig a'r pili-palaod bach glas.

Wrth i chi gerdded, cymerwch amser i stopio ac edrych yn ofalus tua'r môr oherwydd mae'r arfordir o amgylch Pen-caer yn lle gwych i weld mamaliaid y môr.

Rhai eithaf bach, llwyd yw llamhidyddion ac anaml y byddan nhw'n gwneud mwy na thorri arwyneb y dŵr. Mae'r dolffiniaid trwynbwl sy'n fwy o faint ac yn llwyd golau, yn fwy ystwyth ac weithiau fe fyddan nhw'n neidio'n glir o'r dŵr.

Mwy o Wybodaeth: Pan fydd y nant yn gorlifo, dargyfeiriad o 2 km (1 km ar isffordd). Byddwch yn ofalus iawn os yw cael mynediad i traeth Pwllcrochan.